**PWYLLFOR ARCHWILIO AC-08-00(p.3)**

| |
|---|
| Dyddiad: 9 Tachwedd 2000 |
| Amser: 2pm |
| Lleoliad: Ystafell Pwyllgor 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Teitl: GWEITHDREFNAU DISGYBLU'R HEDDLU: NODYN I'R PWYLGOR ARCHWILIO**

**Gweithdrefnau Disgyblu’r Heddlu: Nodyn i’r Pwyllgor Archwilio**

1. Mewn ymateb i gais gan y Pwyllgor Archwilio, mae’r nodyn hwn yn nodi’r fframwaith statudol ar gyfer trefniadau disgyblu’r heddlu yng Nghymru a Lloegr. Mae’r nodyn yn amlinellu’r trefniadau ar gyfer delio â pherfformiad anfoddhaol swyddogion unigol o’r heddlu ac ar gyfer ymdrin â honiadau o gamymddwyn. Yn benodol, mae’n disgrifio rôl Awdurdod Cwynion yr Heddlu. Mae’r nodyn hefyd yn amlinellu gwaith y Rheolwr a’r Archwilydd Cyffredinol a’r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar y mater hwn.

**Fframwaith Statudol**

2. Mae’r trefniadau statudol ar gyfer disgyblu’r heddlu ledled Cymru a Lloegr wedi esblygu fel a ganlyn:

- Cyn 1976, byddai gwasanaeth yr heddlu yn cofnodi unrhyw gwynion yn erbyn yr heddlu ac yn ymchwilio iddynt. Nid oedd y broses yn cynnwys elfen annibynnol. Wedi hynny, arweiniodd Deddf yr Heddlu 1976 at greu Bwrdd Cwynion yr Heddlu a oedd yn fwrdd annibynnol ag elfen sifil gyda phwerau i arolygu penderfyniadau prif swyddogion ar faterion disgyblu a dwyn swyddogion yr heddlu i wrandawiadau ffurfiol.
- Sefydlwyd Awdurdod Cwynion yr Heddlu o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 i gymryd lle Bwrdd Cwynion yr Heddlu. Roedd hyn yn dilyn adroddiad yr Arglwydd Scarman ar y terfysgoedd yn Brixton ym 1981. Argymhellodd ei adroddiad y dylid diwygio'r system ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn yr heddlu mewn ffordd radical. Mae Awdurdod Cwynion yr Heddlu yn gorff annibynnol. Mae Paragraff 11 a Ffigwr 2 y nodyn hwn yn rhoi mwy o wybodaeth fanwl am ei rôl a'i waith. Cyflwynwyd Rheoliadau (Disgyblu) yr Heddlu hefyd ym 1985 er mwyn darparu trefniadau i wasanaeth yr heddlu ymchwilio'n fewnol i achosion o gamymddwyn.
- Gosododd Deddf yr Heddlu 1996 y sylfaen ar gyfer trefniadau newydd a sefydlwyd gan Reoliadau (Effeithlonrwydd) yr Heddlu 1999 a Rheoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 1999. Am y tro cyntaf cyflwynodd y rhain weithdrefnau ffurfiol ar gyfer delio â pherfformiad gwaith anfoddhaol yn ogystal â chod ymddygiad newydd. Mae'r rheoliadau yn berthnasol i bob cwyn a wnaed ar ôl 1 Ebrill 2000, beth bynnag fo dyddiad y digwyddiadau a esgorodd arnynt.
- Ym 1998, datgelwyd diffygion difrifol gan ymchwiliad Heddlu Sir Gaint, a oruchwyliwyd gan Awdurdod Cwynion yr Heddlu, i mewn i'r modd yr ymdriniwyd â'r ymchwiliad i farwolaeth Stephen Lawrence gan Heddlu Llundain. Canfuwyd methiannau difrifol hefyd yn y ffordd y cynhaliwyd yr ymchwiliad gan ymchwiliad Macpherson wedi hynny a chyflwynwyd cyfres o argymhellion ar weithdrefnau cwyno a disgyblu'r heddlu.

**Perfformiad anfoddhaol**

3. Bwriad y gweithdrefnau perfformiad anfoddhaol newydd yw darparu strwythur ffurfiol i ddelio â phatrwm o berfformiad gwaith gwael gan unigolion. Mae'r broses yn dechrau â chyfweliad cyntaf a drefnir gan oruchwyliwr agosaf y swyddog a hysbysiad ysgrifenedig. Mae hawl gan y swyddog geisio cyngor a mynd ag aelod o gymdeithas y staff gydag ef i'r cyfweliad. Yn y cyfweliad, esbonnir y perfformiad gwael a gall y swyddog neu'r cynrychiolydd roi sylwadau. Os bydd y swyddog sy'n cyfweld yn parhau â'r farn i'r perfformiad fod yn anfoddhaol, yna cytunir ar gynllun gweithredu gyda graddfa amser ar gyfer gwelliant.

4. Os bydd y swyddog yn methu â gwella digon o fewn y raddfa amser a roddwyd, bydd ail gyfweliad yn digwydd. Caiff hwn ei drefnu a'i gynnal gan swyddog sydd o radd uwch na'r swyddog a gyfwelodd y tro cyntaf. Nodir yn fanwl y camau ar gyfer gwelliant a graddfa amser derfynol. Os bydd y swyddog yn methu â chyflawni'r gwelliant o hyd, hwyrach y cynhelir gwrandawiad aneffeithlonrwydd. Bydd hyn yn digwydd o flaen panel sy'n cynnwys prif gwnstabl cynorthwyol fel cadeirydd a dau aseswr o radd arolygydd. O leiaf 21 diwrnod cyn y gwrandawiad, cyflwynir adroddiad llawn gyda datganiadau ategol a dogfennau eraill i'r panel a gall y swyddog gael ei gynrychioli'n gyfreithiol a galw ar dystion.

5. Bydd yn rhaid i'r panel ddod i benderfyniad un ai'n unfryd neu drwy fwyafrif. Os canfyddir perfformiad anfoddhaol, gall y swyddog roi sylwadau pellach gerbron cyn i'r panel ystyried sancsiynu. Mae'r sancsiynau y gellir eu gweithredu fel a ganlyn:

- gofyniad i ymddiswyddo;
- gostyngiad mewn gradd a rhybudd ysgrifenedig y bydd gwelliant annigonol o fewn cyfnod penodol yn arwain at gyfweliad cyntaf; a
- rhybudd ysgrifenedig y bydd gwelliant annigonol o fewn cyfnod penodol yn arwain at gyfweliad cyntaf.

O fewn 14 diwrnod i hysbysiad ysgrifenedig o'r penderfyniad, gall y swyddog wneud cais am arolwg gan y prif gwnstabl. Mae'n bosibl apelio ymhellach os bydd disgwyl i'r swyddog ymddiswyddo neu ostwng ei radd. Gwneir hyn i Dribiwnlys Apeliadau'r Heddlu sy'n cynnwys cadeirydd cymwys yn gyfreithiol, aelod o awdurdod yr heddlu, prif swyddog sydd, neu a fu, yn gwasanaethu a swyddog o radd briodol wedi ymddeol.

**Camymddwyn**

6. Gellir diffinio achos o gamymddwyn gan swyddog heddlu fel unrhyw weithred sy'n rhedeg yn groes i'r safon ymddwyn a ddisgwylir fel y nodir yn Rheoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 1999. Mae 12 adran yn y Cod Ymddygiad newydd ar gyfer swyddogion heddlu gan gwmpasu:

- Onestrwydd ac integredd,
- Tegwch ac amhleidioldeb,
- Cwrteisi a goddefgarwch,
- Defnyddio grym a chamddefnyddio awdurdod,
- Cyflawni dyletswyddau,
- Trefnau cyfreithlon,
- Cyfrinachedd,
- Troseddau troseddol,
- Eiddo,
- Sobrwydd,
- Ymddangosiad, ac
- Ymddygiad cyffredinol

7. Gall honiadau o gamymddwyn ddeillio'n fewnol o'r heddlu ei hun neu o awdurdod yr heddlu (cyfeirir at y rhain fel achosion di-gë yn) neu'n allanol oddi wrth aelodau'r cyhoedd. Mae Ffigwr 1 yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â honiadau o gamymddwyn o'r ddwy ffynhonnell hyn.

8. Os daw'r honiad o ffynhonnell nad yw'n ymwneud ag aelod o'r cyhoedd, gyda'r rheolwyr llinell y mae'r cyfrifoldeb dechreuol dros benderfynu sut y dylid delio ag ef. Mewn rhai achosion, hwyrach y penderfynir y gellir delio â'r achos a'i ddatrys yn lleol drwy fod y rheolwr llinell yn rhoi cyngor a atodir gan unrhyw arweiniad neu hyfforddiant angenrheidiol. Hwyrach hefyd y bydd angen ymgymryd ag ymholiadau yn lleol a datrys yr achos heb ymchwiliad ffurfiol.

9. Mewn achosion mwy difrifol lle bydd yr uwch swyddog yn penderfynu cymryd camau gwahanol i roi geiriau o gyngor, os cyffesir yr achos o gamymddwyn, gall arolygydd weinyddu rhybudd ysgrifenedig ffurfiol. Mae rhybuddion o'r fath yn ddilys am 12 mis. Os gwedir yr achos o gamymddwyn, bydd yn rhaid cynnal ymchwiliad ffurfiol. Llunnir adroddiad gan y swyddog ymchwilio a allai arwain at ddim camau pellach, rhybudd ysgrifenedig ffurfiol, geiriau o gyngor, neu gamau troseddol lle bo tystiolaeth o droseddu (lle bu camau troseddol, cyfeirir yr ymchwiliad i Wasanaeth Erlyn y Goron), neu wrandawiad ffurfiol. Os bydd y swyddog wedi derbyn dau rybudd eisoes, cyfeirir trydydd mater i wrandawiad ffurfiol. Cynhelir hwn o flaen panel o brif gwnstabl cynorthwyol a dau arolygydd. Os bydd canfod achos o gamymddwyn yn debygol o arwain at ddiswyddo, gofyniad i ymddiswyddo neu ostwng gradd, cynigir cynrychiolaeth gyfreithiol i'r swyddog. Ymhlith sancsiynau eraill mae dirwy, cerydd neu rybudd. Fel sy'n wir mewn achosion o berfformiad gwael, mewn achosion lle canfyddir achos o gamymddwyn, gall swyddogion wneud cais am arolwg gan y prif gwnstabl, ac am y tri sancsiwn mwyaf difrifol, apelio at Dribiwnlys Apeliadau'r Heddlu.

10. Y newid mwyaf o dan reoliadau 1999 yw i safon prawf sifil gymryd lle'r troseddol. Mae hyn yn golygu y gellir honni bod swyddogion a gyhuddwyd wedi torri'r cod ymddygiad os profir yr achos yn eu herbyn 'ar sail tebygolrwydd'. O dan Reoliadau 1985 roedd yn rhaid profi'r achos 'y tu hwnt i amheuaeth resymol'. Daw hyn â gwasanaeth yr heddlu yng Nghymru a Lloegr i gydymffurfiaeth â'r rhan fwyaf o systemau disgyblu mewnol eraill yn y gwasanaeth cyhoeddus.

**Ffigwr 1: Gweithdrefnau Disgyblu'r Heddlu**

Ffynhonnell: Awdurdod Cwynion yr Heddlu

## Awdurdod Cwynion yr Heddlu

11. Sefydlwyd Awdurdod Cwynion yr Heddlu o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 gyda thair swyddogaeth statudol. Y gyntaf yw goruchwylio ymchwiliadau i’r cwynion mwyaf difrifol yn erbyn swyddogion heddlu. Yr ail yw goruchwylio ymchwiliadau i faterion di-gwyn a gyfeiriwyd yn wirfoddol gan heddluoedd oherwydd eu difrifoldeb posibl. Y drydedd yw arolygu canlyniad pob ymchwiliad, boed yn cael ei oruchwylio neu beidio, a phenderfynu a ddylid cymryd camau disgyblu yn erbyn unrhyw swyddog. Mae Ffigwr 2 yn rhoi mwy o fanylion am sefydliad yr Awdurdod a’i waith.

### Ffigwr 2: Awdurdod Cwynion yr Heddlu

#### Sefydliad

Tan 31 Mawrth 1999 trefnwyd yr Awdurdod yn ddwy adran. Cynhaliwyd y swyddogaeth o oruchwylio gan un, dan arweiniad y Dirprwy Gadeirydd ac yn cynnwys pum aelod. Ymgymerwyd â’r arolwg disgyblu a’r gwaith dyfarnu gan bum aelod dan arweiniad y Cadeirydd. Yn ystod 1999-2000, fodd bynnag, penderfynodd yr Awdurdod gyfuno’r ddwy adran a chreu strwythur tri thîm y mae rhai gweithwyr achos ac aelodau yn ymgymryd â’r gwaith o oruchwylio ymchwiliadau a’r swyddogaethau arolygu disgyblaeth terfynol o’i fewn. Bydd gan bob achos a fydd yn arwain at honiadau disgyblu yn erbyn swyddogion ail aelod i arolygu’r penderfyniadau disgyblu.

#### Cofnodi cwynion

Mae Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 yn ei gwneud yn ofynnol i’r heddlu y gwnaed cwyn yn erbyn ei swyddogion ei gofnodi cyn y gellir dechrau unrhyw ymchwiliad. Mae’n rhaid i’r cwynion gael eu gwneud gan, neu ar ran, aelod o’r cyhoedd; mae’n rhaid iddynt ymwneud ag ymddygiad swyddog sy’n gwasanaethu; a hwyrach nad ydynt yn ymwneud â’r ffordd y cyfarwyddir neu y rheolir yr heddlu.

Bob blwyddyn mae mwy na 2,000 o bobl yn cysylltu’n uniongyrchol â’r Awdurdod gyda chwynion am yr heddlu. Lle y bo angen, cynigir cyngor ac arweiniad ac yna trosglwyddir y gwyn i’r heddlu perthnasol i’w hystyried a, lle y bo’n briodol, i’w chofnodi’n ffurfiol.

#### Datrys sefyllfa yn anffurfiol

Mae’r ddeddfwriaeth yn caniatáu i gwynion llai difrifol gael eu datrys yn anffurfiol. Delir â thua 34 y cant o bob cwyn a gofnodir yn y ffordd hon heb iddynt gyrraedd yr Awdurdod. Fodd bynnag, mae gan rai sy’n cwyno ac sy’n anfodlon â’r ffordd y caiff y sefyllfa ei datrys hawl i gyflwyno eu cwynion i gael eu hystyried drwy’r broses ffurfiol.

#### Tynnu’n ôl a gollyngiadau

Tynnir nifer o gwynion yn ôl neu nid eir ymlaen â hwy. Weithiau bydd rhywun sydd â chwyn yn

penderfynu peidio â mynd ar drywydd cwyn a wnaed yng ngwres y foment neu byddant yn ei thynnu'n ôl unwaith y bydd achos troseddol cysylltiedig yn ei erbyn ef neu yn ei herbyn hi wedi ei benderfynu yn y llys.

Mae'r rheoliadau hefyd yn galluogi'r Awdurdod i ollwng heddlu rhag yr angen i ymchwilio i gwyn os bydd yn ddienw neu'n ailadroddus; os bydd yn flinderus, yn ormesol neu'n gamddefnydd o'r gweithdrefnau; os bu mwy na 12 mis o oedi rhwng y digwyddiad a'r gwyn; neu os na fydd yn rhesymol ymarferol cynnal ymchwiliad ystyrlon.

Wrth ganiatáu gollyngiadau mae'r Awdurdod yn ymwybodol o'r ffaith ei fod, i bob pwrpas, yn symud hawl statudol dinesydd rhag sicrhau bod ei gwyn ef neu ei chwyn hi yn cael ei hymchwilio. Creffir ar geisiadau am ollyngiadau yn ofalus, felly, ac mae'r Awdurdod yn mynnu bod heddluoedd yn cymryd pob cam posibl i sicrhau bod y sawl sy'n cwyno yn ymwybodol o'r bwriad i geisio gollyngiad. Wrth ystyried a ddylid gollwng cwyn oherwydd methiant y sawl sy'n cwyno neu ei fod yn gwrthod cydweithredu, prif bryder yr Awdurdod yw penderfynu a ellir cynnal ymchwiliad gwerth chweil o hyd neu beidio.

**Achosion a oruchwylir**

Mae'r ddeddfwriaeth yn diffinio'r math o gwyn y mae'n rhaid ei chyfeirio i'r Awdurdod i'w goruchwylio o bosibl. Gall heddluoedd hefyd gyfeirio unrhyw gwyn arall sydd, yn eu barn hwy, yn cyfiawnhau ymchwiliad a oruchwylir.

Mae'n rhaid i'r Awdurdod oruchwylio ymchwiliad pob cwyn sy'n honni bod swyddog wedi achosi marwolaeth neu anaf difrifol. Ym mhob achos arall cyfrifoldeb yr Awdurdod yw penderfynu a ddylid goruchwylio neu beidio. Gall yr Awdurdod hefyd alw unrhyw gwyn nas cyfeiriwyd iddynt hwy i mewn i gael ei goruchwylio.

**Achosion di-gwyn**

Gall heddluoedd gyfeirio unrhyw sefyllfa, nad yw'n cynnwys cwyn, ac sy'n codi materion difrifol neu eithriadol a lle mae swyddog wedi cyflawni trosedd o bosibl, i'w goruchwylio. Ymhlith enghreifftiau nodweddiadol mae achosion o saethu, marwolaethau tra'n y ddalfa ac achosion o lwgrwobrwyo difrifol.

**Yr hyn y mae goruchwylio yn ei olygu**

Mewn achosion a oruchwylir mae'n rhaid i'r Awdurdod gymeradwyo'r swyddog ymchwilio a benodir. Mae ganddo bwerau hefyd i orfodi unrhyw ofynion sydd, yn ei farn, yn angenrheidiol er mwyn cynnal yr ymchwiliad yn gywir. Y nod yw sicrhau bod yr ymchwiliad yn drwyadl, yn amhleidiol ac yn effeithiol. Cyflawnir hyn drwy gyfarfodydd gyda'r swyddog ymchwilio; cytuno ar gylch gorchwyl yr ymchwiliad; a monitro cyson ar gynnydd ymchwiliad, gan ymyrryd pan fo angen. Pan fydd yr ymchwiliad wedi ei gwblhau, bydd yn rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi datganiad ffurfiol gan nodi a yw'n fodlon neu beidio a chan nodi unrhyw feysydd penodol y mae'n bryderus yn eu cylch.

**Arolygu a dyfarnu**

P’un a oruchwyliwyd yr ymchwiliad ai peidio, cyflwynir yr adroddiad terfynol i ddirprwy gwnstabl neu brif gwnstabl cynorthwyol yr heddlu dan sylw. O dan y ddeddfwriaeth, bydd yn rhaid iddo ef/hi ystyried yn gyntaf a yw’r adroddiad yn nodi bod swyddog wedi cyflawni trosedd o bosibl ac, os felly, a ddylid ei gyhuddo/chyhuddo. Os cymer y safbwynt hwnnw, bydd yr achos yn mynd at Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS) a fydd yn gorfod penderfynu a ddylid erlyn neu beidio. Mae gan yr Awdurdod y pwer i gyfarwyddo y dylid cyflwyno achos i’r CPS er bod y prif swyddog wedi penderfynu peidio â gwneud hynny.

Os bydd y CPS yn penderfynu erlyn, clywir yr achos yn y llysoedd troseddol. P’un a gaiff ei ddedfrydu’n euog neu’n ddieuog, ni ellir cyhuddo’r swyddog wedyn o drosedd ddisgyblu[1] yn seiliedig ar yr un ffeithiau (roedd y ddarpariaeth hon yn berthnasol i bob achos tan i Ddeddf yr Heddlu 1996 gael ei gweithredu ar 1 Ebrill 1999). Ym mhob achos arall bydd yn rhaid i’r prif swyddog gyflwyno memoranda i’r Awdurdod yn nodi a ddylid dwyn achos disgyblu neu beidio ac, os na ddylid gwneud hynny, y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw. Bydd yr Awdurdod wedyn yn arolygu’r achos cyfan ac yn penderfynu a ddylid derbyn argymhelliad yr heddlu. Os bydd yn anghytuno, mae gan yr Awdurdod y pwer i argymell neu, os bydd angen, i gyfarwyddo bod cyhuddiadau disgyblu yn cael eu cyflwyno.

**Disgyblu llai ffurfiol**

Mewn nifer sylweddol o achosion nid yw’r ymchwiliad a gwblheir yn cyfiawnhau gwrandawiad ffurfiol ond mae’n galw am gymryd camau disgyblu anffurfiol. Mae hyn yn amrywio o gerydd[2] a rhybudd i gyngor am ymddygiad yn y dyfodol. Gweinyddir ceryddon a rhybuddion neu gyngor llafar gan uwch swyddog o arolygydd i ddirprwy brif gwnstabl gan ddibynnu ar ddifrifoldeb y drosedd. Cymerir rhybuddion llafar o ddifrif ac, mewn rhai achosion, maent yn fater i’w gofnodi.

**Hysbysu’r sawl sy’n cwyno**

Ar ddiwedd y broses bydd yr aelod o’r Awdurdod a fydd yn gyfrifol am y penderfyniad yn ysgrifennu at y sawl a gwynodd gan nodi canlyniad yr achos a’r rhesymau dros benderfyniad yr Awdurdod. Bydd y llythyr hwn hefyd yn esbonio bod yn rhaid i gyhuddiad, er mwyn i swyddog heddlu gael ei gyhuddo o fod yn euog mewn gwrandawiad disgyblu, gael ei brofi ‘y tu hwnt i amheuaeth resymol’ – safon y prawf a fynnir gan y llysoedd troseddol. Mae hyn yn golygu bod nifer o achosion nad ydynt wedi arwain at wrandawiad gan nad yw’r dystiolaeth sydd ar gael yn cyrraedd y safon uchel hon. Lle bydd digwyddiadau ar neu ar ôl 1 Ebrill 1999, bydd safon y prawf a fynnir mewn gwrandawiadau o achosion camymddwyn ‘ar sail tebygolrwydd’.

Anfonir copi o lythyr yr Awdurdod hefyd at ddirprwy gwnstabl neu brif gwnstabl cynorthwyol yr heddlu dan sylw fel y gellir hysbysu’r swyddog o’r canlyniad.

[1] O 1 Ebrill 1999 cymerwyd lle troseddau disgyblu a chyhuddiadau disgyblu gan achosion o dorri’r Cod Ymddygiad

[2] O 1 Ebrill 1999 cymerwyd lle cosb cerydd gan ‘rybudd’

Ffynhonnell: Awdurdod Cwynion yr Heddlu

## Adroddiadau gan y Rheoleiddiwr a'r Archwilydd Cyffredinol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

12. Ym 1997, cyflwynodd y Rheoleiddiwr a'r Archwilydd Cyffredinol adroddiad ar Reoli Absenoldeb Salwch yn y Gwasanaeth Heddlu Metropolitan (HC 413, 1997-98). Er nad oedd yr adroddiad yn archwilio effaith gweithdrefnau disgyblu ar gyfraddau salwch hir dymor, argymhellodd y Rheoleiddiwr a'r Archwilydd Cyffredinol y dylai'r Heddlu Metropolitan "archwilio i ba raddau y mae'r gyfradd ymddeol bresennol ar sail rhesymau meddygol a threfniadau disgyblu yn dylanwadu ar agweddau swyddogion heddlu tuag at ba mor dderbyniol y mae absenoldeb salwch hir dymor".

13. Wedi hyn ystyriwyd y mater hwn yn fanwl gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Yn ystod y tair blynedd hyd fis Mawrth 1997, o blith y 1,345 o swyddogion yr Heddlu Metropolitan a ymddeolodd oherwydd salwch, gwnaeth 67 ohonynt hynny tra roeddent yn y system ddisgyblu. O blith y 67 hyn, bu dau yn disgwyl achos troseddol ac 17 fwrdd disgyblu. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid bod darpariaeth ar gyfer gwahardd swyddog ar dâl llai yn ystod achos disgyblu. Gofynnodd y Pwyllgor i Gomisiynwyr yr Heddlu Metropolitan ymarfer eu pwerau presennol i wirio dilysrwydd salwch neu anabledd honedig swyddog. Gwnaeth y Pwyllgor gais hefyd i wneud awdurdodau'r heddlu yn ymwybodol o'u pwerau i ohirio'r broses o gytuno i ymddeoliad ar sail salwch tan fod unrhyw achos disgyblu wedi ei gwblhau.

14. Derbyniwyd argymhellion y Pwyllgor ac wedi hynny, ym mis Mawrth 1998, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cartref gynlluniau i ddiwygio'r trefniadau presennol ar gyfer delio â disgyblu a chwynion o fewn yr heddlu ledled Cymru a Lloegr, fel y nodir ym mharagraffau 6-11. Roedd hyn yn cynnwys system ddisgyblu llwybr cyflym a chynnig i allu penderfynu ar achos disgyblu yn absenoldeb swyddog a gyhuddwyd. Fodd bynnag, mae angen newidiadau rheoleiddio er mwyn caniatáu system i wahardd swyddogion ar dâl llai.

## Adroddiad Macpherson

15. Cyflwynwyd 70 o argymhellion gan Adroddiad Macpherson 1999 i mewn i'r ffordd yr ymdriniwyd ag ymchwiliad Stephen Lawrence, ac roedd sawl un yn ymwneud â disgyblu'r heddlu ac annibyniaeth y system gwyno. Ym mis Chwefror 2000, cyhoeddodd y Swyddfa Gartref adroddiad cynnydd ar weithredu argymhellion Macpherson, ac mae Ffigwr 3 yn crynhoi'r argymhellion hynny sy'n berthnasol i'r nodyn hwn.

**Ffigwr 3: Adroddiad Macpherson – Argymhellion yn ymwneud â gweithdrefnau disgyblu'r heddlu**

| | **Crynodeb o'r argymhellion** | **Camau eto i'w cymryd** |
|---|---|---|
| **Argymhelliad 10**<br><br>(Derbyniwyd) | Dylid datgelu adroddiadau swyddogion ymchwilio i'r hawlydd mewn rhai achosion | Ar ôl trafodaethau'r gweithgor, mae'r trefniadau eto i'w cwblhau yng nghyd-destun penderfyniadau ehangach ar system gwyno fwy annibynnol (gweler Argymhelliad 58) |
| **Argymhelliad 55**<br><br>(Derbyniwyd) | Dylid gweithredu'r gweithdrefnau disgyblu newydd a'u monitro'n agos | Gweithdrefnau newydd a weithredir ar 1 Ebrill 1999 |
| **Argymhelliad 56**<br><br>(Yn gofyn am ystyriaeth bellach) | Dylai camau disgyblu fod ar gael am o leiaf 5 mlynedd ar ôl i swyddog ymddeol | Mae'r posibilrwydd o bensiynau yn cael eu fforffedu oherwydd achos o gamymddwyn difrifol i gael ei archwilio. Caiff arolwg o gamau disgyblu posibl ar ôl ymddeol ei gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2000 |
| **Argymhelliad 57** (Derbyniwyd mewn egwyddor) | Dylai'r Cod Ymddygiad sicrhau bod defnydd o eiriau neu weithredu hiliol yn arwain at achos disgyblu | O dan y Cod Ymddygiad newydd mae ieithwedd hiliol yn ei dorri. Bydd yr ystadegau ar gyfer deuddeg mis cyntaf y gweithdrefnau newydd yn cynnwys ffigurau ar gyfer honiadau o ieithwedd neu ymddygiad hiliol |
| **Argymhelliad 58**<br><br>(Derbyniwyd) | Dylid cymryd camau i sicrhau bod cwynion difrifol yn erbyn swyddogion heddlu yn cael eu hymchwilio'n annibynnol gan nad yw ymchwiliadau swyddogion heddlu gan eu gwasanaethau heddlu eu hunain neu wasanaethau heddlu eraill yn ennyn hyder y cyhoedd | Comisiynu a chwblhau astudiaeth ymarferoldeb erbyn mis Ebrill 2000. Cyhoeddi casgliadau'r llywodraeth |

### Achosion disgyblu yng Nghymru

16. Mae'r rhan fwyaf o'r data ar ddisgyblu'r heddlu yn ymwneud â Chymru a Lloegr fel cyfangorff. Fodd bynnag, mae rhywfaint o ddeunydd wedi ei gyhoeddi sy'n ymwneud â heddluoedd Cymru. Mae Ffigwr 4 yn dangos nifer yr achosion disgyblu y deliwyd â hwy drwy Awdurdod Cwynion yr Heddlu dros dair blynedd. Mae'r ffigwr yn dangos bod amrywiaethau yn y gyfradd gë yno fesul 1000 swyddog rhwng heddluoedd Cymru. Yn gyffredinol, ym 1998-99, roedd gan Gymru gyfradd gwyno is, sef 78 fesul 1000, o'i chymharu â Lloegr a oedd â chyfradd o 89 fesul 1000. Wrth edrych ar y ffigurau hyn, dylid nodi bod pob achos cwyno yn cynrychioli ymchwiliad unigol y deliwyd ag ef gan Awdurdod Cwynion yr Heddlu ac felly ei fod hwyrach yn cwmpasu un neu fwy o faterion cwyno ar wahân, a'i fod hwyrach wedi ei ddwyn gan fwy nag un cwynwr.

**Ffigwr 4: Achosion y deliwyd â hwy gan Awdurdod Cwynion yr Heddlu 1998-99 ar gyfer Heddluoedd Cymru**

| | **1996-97** | **1997-98** | **1998-99** | **Maint yr heddlu ym 1998-99** | **Cyfradd fesul 1000 o swyddogion 1998-99** |
|---|---:|---:|---:|---:|---:|
| Dyfed-Powys | 28 | 43 | 37 | 1013 | 37 |
| Gwent | 71 | 46 | 71 | 1254 | 57 |
| Gogledd Cymru | 126 | 91 | 134 | 1395 | 96 |
| De Cymru | 388 | 287 | 273 | 2946 | 93 |
| **Cyfanswm** | **613** | **467** | **515** | **6608** | **78** |

Ffynhonnell: Awdurdod Cwynion yr Heddlu

17. Mae Ffigwr 5 yn dangos mai'r math mwyaf cyffredin o gwyn yn erbyn swyddogion yng Nghymru ym 1998-99 oedd ymosod. Dilynwyd hyn gan fethu o ran dyletswydd, ymddygiad gormesol neu aflonyddu, anghwrteisi ac arestio anghyfreithlon neu ddianghenraid.

**Ffigwr 5: Math o gwyn yn erbyn swyddogion heddlu yng Nghymru, 1998-99**

| Math o gwyn | Nifer y cwynion |
| --- | --- |
| Ymosod mewn ffordd arall | 324 |
| Methu o ran dyletswydd | 88 |
| Ymddygiad gormesol neu aflonyddu | 82 |
| Anghwrteisi | 66 |
| Arestio neu garcharu anghyfreithlon/dianghenraid | 55 |
| Torri cod C – carcharu, trin a chwestiynu | 48 |
| Anghysondeb o ran tystiolaeth/anudoniaeth | 31 |
| Arall | 29 |
| Anghysondeb gweithdrefnol arall | 17 |
| Camddefnyddio eiddo | 17 |
| Torri cod B – chwilio adeiladau a meddiannu eiddo | 14 |
| Anghysondeb traffig | 12 |
| Ymddygiad o wahaniaethu ar sail hil | 8 |
| Torri cod A – stopio a chwilio | 6 |
| Arfer llygredig | 5 |
| Ymosod yn rhywiol | 4 |
| Ymosod difrifol nad yw’n rhywiol | 2 |

Ffynhonnell: Awdurdod Cwynion yr Heddlu

18. Mae Ffigwr 6 yn dangos canlyniad cwynion y cyhoedd ynglyn â swyddogion heddlu o heddluoedd yng Nghymru ym 1998-99. Mae’r golofn olaf yn dangos nifer y cwynion a ddatryswyd yn anffurfiol heb ymchwiliad gan yr heddlu. O blith nifer y cwynion a dderbynnir gan y cyhoedd bob blwyddyn, mae’r rheini a brofir yn gymharol ychydig. Ym 1998-99 yng

Nghymru, profwyd 1.3 y cant o gwynion y cyhoedd yn erbyn swyddogion heddlu. Mae hyn o'i gymharu â heddluoedd Lloegr lle profwyd 2.4 y cant o gwynion y cyhoedd yn erbyn swyddogion heddlu.

**Ffigwr 6: Canlyniad y cwynion yn erbyn swyddogion o heddluoedd yng Nghymru, 1998-99**

| | **Nifer y cwynion** | **Nifer a brofwyd** | **Nifer y cwynion a brofwyd fesul 1000 o swyddogion, 1998-99** |
|---|---|---|---|
| Dyfed-Powys | 180 | 1 | 1 |
| Gwent | 505 | 5 | 4 |
| Gogledd Cymru | 381 | 7 | 3 |
| De Cymru | 752 | 11 | 4 |
| **Cyfanswm** | **1818** | **24** | **4** |

Ffynhonnell: Dangosyddion Perfformiad yr Heddlu a Gwasanaeth Tân y Comisiwn Archwilio 1998-99

## Mwy o wybodaeth

19. Mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn barod i roi unrhyw wybodaeth neu eglurhad pellach i Aelodau ar unrhyw un o'r materion a godwyd yn y nodyn hwn.

**Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru**
**Medi 2000**